# ACT UN
# ARWEINYDDIAETH A GRYM

## A yw arweinwyr yn cael eu geni neu eu meithrin ?



© RSC. Llun gan Keith Pattison.

**Amcanion**
Archwilio rhinweddau arweinyddiaeth gref ac areithio effeithiol drwy ddramâu Shakespeare ac enghreifftiau modern. Darllen, perfformio a thrafod llinellau, golygfeydd ac areithiau o ddramâu Shakespeare.

**Cysylltiadau â'r cwricwlwm**
Saesneg, Drama, Dinasyddiaeth, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd, Gwleidyddiaeth.

**Sgiliau a rhagolygon dinasyddiaeth**
Cyfathrebu, cydweithio, meddwl yn greadigol ac yn feirniadol.

**Adnoddau angenrheidiol**
Digon o le ar gyfer gwaith ymarferol, darnau mawr o bapur a pheniau, mynediad i'r rhyngrwyd, camerâu digidol, copïau o'r darnau o'r ddrama ac araith Barack Obama.

## FFOCWS DYSGU

Rhinweddau arweinyddiaeth, areithio a rhethreg sy'n llawn perswâd.

Ceir archwiliad manylach o arweinyddiaeth a grym yn **Julius Caesar**, sy'n defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar theatr ar ddiwedd y pecyn i'r rheini sydd am archwilio'r thema neu'r ddrama hon yn fanylach. Gallech ddefnyddio'r dulliau hyn naill ai cyn neu ar ôl y dilyniant canlynol o waith, neu fel rhan ohono.

## CYFLWYNIAD

Meddyliwch am arweinydd yn eich ysgol, tref neu wlad. Pa sgiliau sydd ganddo sy'n ei wneud yn arweinydd da? Sut mae'n ennill ac yn cadw ei rym?

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am eu hymateb i'r cwestiynau hyn. A allant feddwl am unrhyw enghreifftiau o arweinwyr o'r gorffennol neu'r presennol sydd wedi cael eu 'meithrin' ac unrhyw rai sydd wedi cael eu 'geni'?

Mae dramâu Shakespeare yn llawn cymeriadau sydd wedi'u geni mewn grym, wedi colli grym neu'n ceisio ei ennill. Pa fath o arweinwyr yw'r cymeriadau Shakespearaidd hyn? Pa fath o gamau y maent yn eu cymryd er mwyn ceisio ennill neu gadw grym?

## GWEITHGAREDDAU CYNHESU

### ? CWESTIYNAU ALLWEDDOL

**Pa effaith y mae arweinydd yn ei chael arnoch?**

**Sut y byddech yn ymddwyn yn ei gwmni?**

**Sut y byddech yn cyfarch eich Pennaeth neu Bennaeth y Wladwriaeth petai'n cerdded i mewn i'r ystafell nawr?**

Mae dramâu Shakespeare yn aml yn dechrau gyda sefyllfa lle mae rhywbeth yn tarfu ar y drefn arferol ac mae rheolwyr ac arweinwyr yn newid. Mae hyn yn aml yn golygu bod angen i'r cymeriadau eraill newid eu hymddygiad yn gyflym iawn er mwyn gwneud argraff dda ar yr arweinydd newydd a sicrhau eu bod yn ddiogel.

– Gofynnwch i'r disgyblion symud yn rhydd o gwmpas lle agored.

– Penodwch un disgybl yn arweinydd. Gallech alw'r disgybl hwnnw'n 'frenin' neu'n 'frenhines', yn dibynnu ar y ddrama rydych yn mynd i'w hastudio, a rhoi coron iddo i'w gwisgo.

– Wrth i'r arweinydd symud o gwmpas, gofynnwch i weddill y grŵp ymateb iddo yn y ffordd y maent yn credu y dylent ymateb i arweinydd newydd. Esboniwch mai newydd ddod yn arweinydd arnynt y mae'r unigolyn hwn, felly nid ydynt yn gwybod eto sut beth fydd ei arweinyddiaeth. Sut y byddant yn ymateb i'r arweinydd newydd?

– Gofynnwch iddynt rewi, a holwch yr arweinydd newydd: Pa fath o ymddygiad roedd yn ei hoffi? Beth oedd yn ei gythruddo? Yn seiliedig ar ei atebion, sefydlwch dair 'rheol' newydd i'r ystafell. Er enghraifft, gallai'r rheolau gynnwys bod yr arweinydd yn hoffi i bobl ymgrymu iddo ond nad yw'n hoffi pobl yn gwenu gormod na dod yn rhy agos ato neu'i gyffwrdd.

– Rhowch amser i'r disgyblion weithredu ar y rheolau hyn a newid eu hymateb i'r arweinydd, gan weld sut y mae'r ystafell yn newid.

– Ailadroddwch hyn, gan ddechrau o'r dechrau, ond gydag arweinydd gwahanol, gan ei annog i feddwl am reolau gwahanol.

– Myfyriwch gyda'r disgyblion ynghylch sut roedd yn teimlo i orfod addasu a newid. Pa mor hawdd oedd dyfalu beth roedd yr arweinydd newydd yn ei hoffi? Sut brofiad oedd bod yn y cyfnod o newid rhwng arweinwyr?

Mae'r gweithgaredd hwn yn ffordd dda o gyflwyno'r syniad o arddull a dylanwad arweinwyr. Gyda'r dramâu **Richard II** neu **Henry IV Part I**, er enghraifft, gall hyn fod yn ffordd wych o annog y disgyblion i feddwl am yr hyn sy'n digwydd pan fydd arweinwyr yn newid a'u llysoedd yn gorfod addasu i'w harweinyddiaeth newydd.

Mewn nifer o ddramâu Shakespeare, bydd y golygfeydd agoriadol yn aml yn dangos cyfnod o newid ac ansicrwydd fel hyn. Gallech hefyd addasu'r gweithgaredd hwn fel eich bod yn canolbwyntio mwy ar sut mae'n teimlo i fod yn arweinydd, gan roi gwahanol rinweddau i'r disgyblion sy'n chwarae rolau'r arweinwyr er mwyn i chi allu cyflwyno cymeriadau, fel Oberon a Titania yn **A Midsummer Night's Dream** neu Cleopatra yn **Antony and Cleopatra**.

# ARCHWILIO THEMÂU, SGILIAU A RHAGOLYGON DINASYDDIAETH

## ? CWESTIYNAU ALLWEDDOL

**Beth yw rhinweddau arweinydd da?**

**Sut y gall argraff pobl o arweinydd newid dros amser?**

Trefnwch y disgyblion mewn llinell i lawr canol yr ystafell ddosbarth. Darllenwch restr o weithredoedd gan arweinwyr yn nramâu Shakespeare. Gofynnwch i'r myfyrwyr gamu ymlaen os ydynt yn credu bod gweithred yn debygol o gael ei chyflawni gan arweinydd da, ac yn ôl os yw'n debygol o gael ei chyflawni gan arweinydd anghymwys. Cymharwch ble mae'r myfyrwyr yn sefyll ar ddiwedd y gweithgaredd a gofynnwch i rai o'r myfyrwyr esbonio eu penderfyniadau.

**Macbeth**: Lladdodd y brenin er mwyn dod yn arweinydd newydd.

**Henry V**: Anogodd ei filwyr i fynd i ryfel a brwydro'n ddewr.

**Henry IV**: Cipiodd y goron gan arweinydd annheg ac amhoblogaidd.

**Richard II**: Defnyddiodd arian gan ei ddeiliaid i brynu pethau drud iddo ei hun.

(Gallwch ychwanegu enghreifftiau gan gymeriadau yn y ddrama/dramâu rydych yn eu hastudio.)

Gofynnwch i bob grŵp dynnu llun mawr sy'n dangos sut y mae arweinydd da yn edrych, yn eu tyb hwy. Gofynnwch iddynt ysgrifennu'r wybodaeth, sgiliau a rhinweddau y maent yn credu y dylai arweinydd da feddu arnynt o gwmpas amlinell y llun. A ddylai fod yn dda am drefnu, yn siaradwr sy'n ysbrydoli pobl neu'n filwr didrugaredd?

Ar ôl iddynt wneud hyn, gofynnwch iddynt gymharu eu canlyniadau â'r grwpiau eraill yn y dosbarth. Sut y maent yn wahanol? Penderfynwch beth yw tri rhinwedd pwysicaf arweinydd da yn eu tyb hwy – a ydynt yn wahanol i rinweddau person da?

# DADANSODDIAD MANWL – RHETHREG

## ? CWESTIYNAU ALLWEDDOL

**Sut mae arweinwyr yn defnyddio iaith i berswadio pobl i'w dilyn?**

Rhethreg yw'r grefft o areithio mewn ffordd sy'n dwyn perswâd. Prif bwrpas rhethreg yw perswadio pobl i ddilyn eich syniadau. Bydd arweinwyr effeithiol yn aml yn defnyddio'r technegau perswadiol canlynol yn eu hareithiau:

– Ailadrodd.

– Rheol tri (ailadrodd rhywbeth dair gwaith er mwyn ei bwysleisio).

– Cwestiynau.

– Rhestrau.

– Gwrthgyferbyniad (neu antithesis).

Dyma'r ffordd draddodiadol o drefnu dadleuon mewn araith, yn ôl Aristotle: ethos, logos, pathos.

**Ethos** – Apelio i'r gwrandäwr drwy ddefnyddio cymeriad y siaradwr. Dylai naws yr araith sefydlu rhinwedd a gwerth moesol y siaradwr. Dylech wrando arnaf oherwydd... mae gen i enw da ac awdurdod; rwy'n eich diddanu ac mae'n ymddangos fy mod yn gwybod am beth rwy'n siarad.

**Logos** – Apelio ar sail rhesymeg neu reswm. Defnyddir enghreifftiau a gwirebau i ategu'r ddadl. Dylech wrando arnaf oherwydd... y ffeithiau diamheuol.

**Pathos** – Apelio ar sail emosiwn, yn aml yn gysylltiedig â dioddef neu gydymdeimlo a'r emosiynau a gymhellir ymhlith y gynulleidfa. Dylech wrando arnaf oherwydd... dyma broblem a dyma sut mae'r broblem yn effeithio arnoch chi'n bersonol. Mae dadleuon sy'n cynnwys pathos yn aml yn defnyddio trosiadau neu gymariaethau er mwyn galluogi'r gynulleidfa i gysylltu'n emosiynol â syniad haniaethol.

Gwyliwch gynyrchiadau o areithiau tanbaid gan arweinwyr yn nramâu Shakespeare - er enghraifft araith Brutus yn **Julius Caesar, Act 3 Golygfa 2**, ac araith **Henry V** yn **Henry V, Act 3 Golygfa 1**.

Gofynnwch i'r myfyrwyr nodi rhinweddau'r rhethreg sy'n llawn perswâd a ddefnyddir yn y darnau hyn. Pa argraff y mae'r dosbarth yn ei chael o'r arweinydd? Sut mae'r iaith yn awgrymu hyn?

## ARCHWILIO ARAITH

**Mae Darllen Corawl a Throad Atalnodi yn weithgareddau a fydd yn helpu eich disgyblion i archwilio iaith Shakespeare ymhellach, lle byddant yn darllen y darn yn uchel wrth gerdded o gwmpas ac yn newid cyfeiriad bob tro y byddant yn cyrraedd unrhyw fath o atalnodi.**

**Gall hyn esgor ar drafodaeth am gyflwr meddwl cymeriad, er enghraifft, os ydynt yn newid cyfeiriad yn aml ac yn ymddangos yn aflonydd, beth mae hyn yn ei ddatgelu am yr arweinydd? Gallwch weld enghraifft o sut y gallai hyn weithio gyda Julius Caesar ar dudalennau 60 a 61, ond gellir ei ddefnyddio gydag unrhyw destun.**

Anogwch eich disgyblion i roi cynnig ar ysgrifennu fersiwn o un o'r areithiau rydych wedi edrych arnynt mewn Saesneg modern neu yn y Gymraeg. A yw'n cael yr un effaith?



© RSC. Llun gan Kwame Lestrade.

## CYMHWYSO EICH DYSGU – GWEITHGAREDDAU TRAWSGWRICWLAIDD

Rhannwch gopi o araith Barack Obama yn Rhagetholiad New Hampshire, o ymgyrch arlywyddol UDA yn 2008, gyda'ch disgyblion (rhowch fersiynau ysgrifenedig a fideo). Gofynnwch i'ch disgyblion nodi unrhyw rai o'r nodweddion rhethregol ac iaith perswadio y gwnaethant sylwi arno yng ngwaith Shakespeare. Sut a pham mae'r araith yn dwyn perswâd?

Gofynnwch i'ch disgyblion gymharu'r araith hon â'r fersiwn a wnaed gan yr artist will.i.am (mae fideo ar gael ar **https://www.youtube.com/watch?v=jjXyqcx-mYY**)

I bwy y gallai'r fersiwn hon apelio? Trafodwch sut y gall gwleidyddion ymgysylltu â phobl ifanc yn yr 21ain ganrif. A yw rhethreg yn dal yn bwysig?

## AC I GLOI...

### ? CWESTIYNAU ALLWEDDOL

**Yn ôl i'r cwestiwn gwreiddiol: a yw arweinwyr yn cael eu geni neu eu meithrin? Trafodwch hyn fel dosbarth. A yw eu safbwyntiau wedi newid?**

Sut y gallwch fod yn arweinydd da yn eich cymuned? Pa sgiliau sydd eu hangen arnoch? Gallech wylio fideo gan y British Council sy'n dangos partneriaeth ysgolion lle mae disgyblion yn gwneud gwahaniaeth i'w hysgolion yn yr Alban a De Affrica drwy gymryd rhan fel arweinydd ifanc: **https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/commonwealth-class/bbc-films**

Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu i ysgrifennu araith neu gynllunio sgript ar gyfer fideo cerddoriaeth er mwyn perswadio pobl i gymryd rhan weithredol mewn cynlluniau i wella agweddau ar eu hysgol neu gymuned.

## GWEITHGAREDDAU YSGOL BARTNER

– Cyfnewidiwch a chymharwch eich lluniau o arweinwyr. A yw'r rhinweddau'n debyg neu'n wahanol yn y ddwy ysgol?

– Rhannwch enghreifftiau o arweinwyr yn traddodi areithiau tanbaid o'r naill wlad a'r llall a ledled y byd.

– Cyfnewidiwch eich areithiau, ffilmiau a syniadau ar gyfer arweinyddiaeth effeithiol yn eich cymunedau gyda'ch ysgol bartner.

# Henry V Act 3 Golygfa 1

**Henry V** Once more unto the **breach**, dear friends, once more,
Or close the wall up with our English dead.
In peace there's nothing so becomes a man
As modest stillness and humility,
But when the blast of war blows in our ears,
Then imitate the action of the tiger:
Stiffen the sinews, conjure up **the blood**.
Disguise fair nature with **hard-favoured** rage,
Then lend the eye a terrible aspect:
Let it pry through the **portage** of the head
Like the brass cannon, let the brow **o'erwhelm** it
As fearfully as doth a **galled** rock
O'erhang and **jutty** his **confounded** base,
Swilled with the wild and wasteful ocean.
I see you stand like greyhounds in the **slips**,
Straining upon the start. The game's afoot:
Follow your spirit, and upon this charge
Cry 'God for Harry, England, and Saint George!'



© RSC. Llun gan Ellie Kurttz.

## ! TROSOLWG

**Yn Henry V, Act 3 Golygfa 1, mae'r Brenin Henry ifanc yn ailymgynnull ei filwyr i fynd yn ddewr i ryfel ac ymladd dros Loegr yn erbyn Ffrainc.**

## NODIADAU

**breach**: bwlch mewn waliau amddiffynnol

**the blood**: gwres, dewrder a ffyrnigrwydd

**hard-favoured**: hyll, ofnadwy neu ddychrynllyd

**portage**: portwll

**o'erwhelm**: hongian neu ymestyn dros rywbeth

**galled**: wedi'i guro

**jutty**: ymwthio allan dros rywbeth

**confounded**: wedi'i ddinistrio

**slips**: tenynnau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer rhyddhau'n gyflym

# Julius Caesar Act 3 Golygfa 2

## ! TROSOLWG

**Yn Act 3 Golygfa 2 of Julius Caesar, mae Brutus yn ceisio perswadio'r dorf bod ganddo achos cyfiawn dros arwain cynllwyn i ladd Caesar.**

**Brutus** Romans, countrymen, and **lovers**, hear me for my **cause**, and be silent, that you may hear. Believe me **for** mine honour, and have respect to mine honour, that you may believe. **Censure** me in your wisdom and awake your **senses**, that you may the better judge. If there be any in this assembly, any dear friend of Caesar's, to him I say, that Brutus's love to Caesar was no less than his. If then that friend demand why Brutus rose against Caesar, this is my answer: not that I loved Caesar less, but that I loved Rome more. Had you rather Caesar were living, and die all slaves, than that Caesar were dead, to live all free men? As Caesar loved me, I weep for him: as he was fortunate, I rejoice at it: as he was valiant, I honour him: but, as he was ambitious, I slew him. There is tears for his love; joy for his fortune; honour for his valour; and death for his ambition. Who is here so base that would be a bondman? If any, speak; for him have I offended. Who is here so **rude** that would not be a Roman? If any, speak; for him have I offended. Who is here so **vile** that will not love his country? If any, speak, for him have I offended. I pause for a reply.

## NODIADAU

**lovers**: ffrindiau

**cause**: rheswm dros weithred/esboniad/testun pryder

**for**: oherwydd

**censure**: barnu

**senses**: meddwl, synnwyr

**rude**: anwaraidd

**vile**: dinod, ffiaidd, annymunol

Mae enghreifftiau eraill o areithiau enwog ar gael ar ffurf sain a thestun yn: **http://www.theguardian.com/theguardian/series/greatspeeches**

# Araith Barack Obama yn Rhagetholiad New Hampshire, 2008

When we have faced down impossible odds, when we've been told we're not ready or that we shouldn't try or that we can't, generations of Americans have responded with a simple creed that sums up the spirit of a people: Yes, we can. Yes, we can. Yes, we can.

It was a creed written into the founding documents that declared the destiny of a nation: Yes, we can.

It was whispered by slaves and abolitionists as they blazed a trail towards freedom through the darkest of nights: Yes, we can.

It was sung by immigrants as they struck out from distant shores and pioneers who pushed westward against an unforgiving wilderness: Yes, we can.

It was the call of workers who organized, women who reached for the ballot, a president who chose the moon as our new frontier, and a king who took us to the mountaintop and pointed the way to the promised land: Yes, we can, to justice and equality.

Yes, we can, to opportunity and prosperity. Yes, we can heal this nation. Yes, we can repair this world. Yes, we can.

And so, tomorrow, as we take the campaign south and west, as we learn that the struggles of the textile workers in Spartanburg are not so different than the plight of the dishwasher in Las Vegas, that the hopes of the little girl who goes to the crumbling school in Dillon are the same as the dreams of the boy who learns on the streets of L.A., we will remember that there is something happening in America, that we are not as divided as our politics suggest, that we are one people, we are one nation.

And, together, we will begin the next great chapter in the American story, with three words that will ring from coast to coast, from sea to shining sea: Yes, we can.